RSPCA CYMRU ANIMAL WELFARE The Great Debate

GENERATION KIND

YOUR TEAM IS GOING TO RESEARCH

Animal welfare in education

and speak **for and against** the subject being taught in schools

This brief has been produced as part of the *RSPCA's Animal Welfare: The Great Debate* and is a starting point for the research you will need to do into the subject in order to ensure a successful debate. The points for or against a subject may not be RSPCA policy and represent some of the wider thinking around the subject.

- Most schools – but not all – must follow the National Curriculum which sets out what students should learn while they are at school. The Curriculum is devolved and produced by the government of each country of the UK.
- Some people and organisations think that animal welfare should be taught in schools.
- Other people think that animal welfare should be taught at home and schools should be prioritising subjects such as maths and science.

FOR

Here are some points **in favour of** animal welfare being taught in schools – what other points can you find?

- Animal welfare can easily be taught across different subjects as part of a lesson plan.
- Learning about animal welfare can help students learn about empathy towards other people.
- It enables people to make more informed choices when shopping for food and other animal products.

AGAINST

Here are some reasons why animal welfare **should not** be taught in schools – can you find any more?

- Animals are covered by the law – people should follow this to ensure they look after their animals correctly.
- Schools are for important subjects that have to be taught – animal welfare is for parents at home.
- Teachers are there to teach not impose their own ethics and personal beliefs on students.

Information you may want to find out

- Is animal cruelty increasing or decreasing?
- What other subjects do students have to learn in school – where could animal welfare fit?
- How many people are aware of the Animal Welfare Act and where can they find information to help them look after their animals?

Potential sources of information

- RSPCA website: **www.rspca.cymru**
- Political Animal website: **www.politicalanimal.wales**
- RSPCA facts and figures: **http://media.rspca.org.uk/media/facts**
- Learning Wales: **http://learning.gov.wales/?lang=en**

RSPCA CYMRU ANIMAL WELFARE
The Great Debate

GENERATION KIND

MAE EICH TÎM YN MYND I YMCHWILIO

Lles anifeiliaid mewn addysg

a siarad **o blaid ac yn erbyn** dysgu'r pwnc mewn ysgolion

Mae'r briff hwn wedi'i lunio fel rhan o *Ddadl Fawr yr RSPCA: Lles Anifeiliaid* ac mae'n fan cychwyn i'r ymchwil y bydd angen i chi ei wneud i'r pwnc er mwyn cael dadl lwyddiannus. Mae'n bosibl na fydd rhai pwyntiau o blaid neu yn erbyn pwnc yn bolisi gan yr RSPCA, a'r pwyntiau yn cynrychioli peth o'r meddylfryd ehangach am y pwnc.

- Rhaid i'r rhan fwyaf o ysgolion – ond nid pob un – ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n nodi beth y dylai myfyrwyr ei ddysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r Cwricwlwm wedi'i ddatganoli ac yn cael ei lunio gan lywodraeth pob gwlad yn y Deyrnas Unedig.
- Mae rhai pobl a sefydliadau yn credu y dylid dysgu am les anifeiliaid mewn ysgolion.
- Mae pobl eraill o'r farn mai yn y cartref y dylid dysgu am les anifeiliaid ac y dylai ysgolion fod yn blaenoriaethu pynciau megis mathemateg a gwyddoniaeth.

O BLAID

Dyma rai pwyntiau **o blaid** addysgu lles anifeiliaid mewn ysgolion – pa bwyntiau eraill allwch chi eu canfod?

- Byddai'n rhwydd addysgu lles anifeiliaid ar draws gwahanol bynciau fel rhan o gynllun gwers.
- Byddai dysgu am les anifeiliaid yn gallu helpu myfyrwyr i ddysgu empathi tuag at bobl eraill.
- Mae'n galluogi pobl i wneud dewisiadau mwy gwybodus wrth siopa am fwyd a chynhyrchion eraill yn ymwneud ag anifeiliaid.

YN ERBYN

Dyma rai rhesymau pam **na ddylid** addysgu lles anifeiliaid mewn ysgolion – ydych chi'n gallu dod o hyd i ragor?

- Mae anifeiliaid wedi'u diogelu gan y gyfraith – dylai pobl gadw at y gyfraith i sicrhau eu bod yn gofalu am eu hanifeiliaid yn gywir.
- Mae'r ysgol ar gyfer pynciau pwysig y mae'n rhaid eu haddysgu – mae lles anifeiliaid ar gyfer rhieni yn y cartref.
- Mae athrawon yno i addysgu – nid i osod eu moeseg a'u credoau personol eu hunain ar fyfyrwyr.

Gwybodaeth y byddech o bosibl am chwilio amdani

- A yw creulondeb yn erbyn anifeiliaid yn cynyddu neu'n mynd yn llai?
- Pa bynciau eraill y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu dysgu yn yr ysgol – ymhle y gellid rhoi lles anifeiliaid i mewn?
- Faint o bobl sy'n gwybod am y Ddeddf Lles Anifeiliaid a ble gallant ddod o hyd i wybodaeth i'w helpu i ofalu am eu hanifeiliaid?

Ffynonellau posibl i gael gwybodaeth

- Gwefan yr RSPCA: **www.rspca.cymru**
- Gwefan Political Animal: **www.politicalanimal.wales**
- Ffeithiau a ffigyrau'r RSPCA: **http://media.rspca.org.uk/media/facts**
- Dysgu Cymru: **http://learning.gov.wales/?lang=cy**